# DISGRIFIAD SWYDD

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd** | Rheolwr Cyfathrebu (Cymru), Adfywio Moroedd a Sir Benfro | | |
| **Adran** | Dadleuaeth ac Ymgyrchu | | |
| **Yn adrodd i** | Pennaeth Cyfathrebu WWF Cymru | | |
| **Lleoliad** | Mae contract i weithio yn y DU gan y rôl hon, felly rhaid ichi fod â'r hawl i fyw a gweithio yn y DU. Bydd yn ofynnol ichi weithio yn eich swyddfa gontractiedig sef **Tŷ Brunel, 2 Heol Fitzalan, Caerdydd, CF24 0EB** a bydd angen ichi allu cymudo i'r lleoliad hwn. | | |
| **Lefel swydd** | 4 | | |
| **Hyblygrwydd** | Mae WWF-UK yn gweithredu trefniant gweithio hybrid. Bydd o leiaf 20% o'r oriau a gontractiwyd yn cael eu treulio'n cydweithredu wyneb yn wyneb â chydweithwyr bob mis, a gweddill yr oriau'n cael eu gweithio gartref. Hefyd, mae gennym bolisi gweithio hyblyg y gellir ei ddefnyddio i ystyried ceisiadau unigol i deilwra patrymau gweithio, gan barhau i ddiwallu anghenion y rôl, y tîm a'r sefydliad. | | |
| **Lefel Diogelu** | Level 2 - Basic DBS check, 2x employment references & sign declarations<br>*Lefel 2 – gwiriad sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, 2 eirda gan gyflogwr a llofnodi datganiadau* | | |
| **Oriau** | 35 | **Cyfwerth ag amser llawn** | 1<br>Cyfwerth â 3 blynedd amser llawn |
| **Dyddiad** | **Mai 2024** | | |

## CYD-DESTUN Y RÔL

WWF Cymru yw swyddfa WWF-UK yng Nghymru, gyda thîm wedi'i leoli yng Nghaerdydd sy'n gweithio gyda chydweithwyr eraill y DU i gyflawni nodau strategol WWF. Mae ein tîm Cymru yn canolbwyntio ar bolisi, dadleuaeth, cyfathrebu a thyfu cefnogaeth, gan weithio'n ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg yn unol â'n cynllun Cynnig Cymraeg.

Ar hyn o bryd mae WWF Cymru yn dilyn rhaglen waith aml-flwyddyn i fynd i'r afael â'r 'Her Driphlyg' yng Nghymru: sut yr ydym yn mynd i'r afael â newid hinsawdd, gwrthdroi colli natur, a newid i system fwyd gynaliadwy.

Wrth i gynllun taliadau newydd gan y llywodraeth gael ei greu i ffermwyr, a gyda datblygiad cynllun carbon sero'r Llywodraeth a'r Bil Natur Bositif, mae'r flwyddyn o'n blaenau yn adeg dyngedfennol o ran ymgysylltu â byd gwleidyddiaeth a'r cyhoedd yng Nghymru ar yr her driphlyg hon.

Mae ein gwaith ymgyrchu bob amser yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, ac yn canolbwyntio ar dyfu cefnogaeth y cyhoedd ochr yn ochr ag ymgysylltu gwleidyddol, sy'n allweddol i gefnogi'n gwaith dadleuaeth yng Nghymru a'r DU.

## PRIF DDIBEN A CHWMPAS Y SWYDD

Bydd y Rheolwr Cyfathrebu yn cyfathrebu ar sail prosiect yn genedlaethol ac yn lleol mewn perthynas â gwaith WWF Cymru ar Ffermio Morol Atgynhyrchiol, ynghyd â gweithio gyda'n tîm rhaglen Tirwedd Gyfan yn Sir Benfro yn darparu gwasanaethau cyfathrebu ac arbenigedd.

Fel rhan o dîm cyfathrebu bach yng Nghymru, bydd gennych rôl allweddol wrth godi proffil y rhaglen Ffermio Morol Atgynhyrchiol a rhaglen Tirwedd Gyfan Sir Benfro, yn lleol ac yn genedlaethol.

Bydd deiliad y rôl yn adrodd i'r Pennaeth Cyfathrebu (Cymru) ac yn cydweithio'n agos ag aelodau eraill o dîm cyfathrebu a dadleuaeth Cymru, Rheolwr y Prosiect Gwymon, Rheolwr Rhaglen Tirwedd Gyfan Sir Benfro, ynghyd â llawer o gydweithwyr eraill yn WWF Cymru a gweddill WWF-UK. Yn ogystal, bydd angen ichi reoli perthnasoedd a chyfathrebu'n rheolaidd â rhanddeiliaid allanol, ac i reoli contractau ag ymgynghorwyr allanol fel rhan o'r rôl.

## CYFRIFOLDEBAU AC ATEBOLRWYDDAU ALLWEDDOL

- Datblygu a chyflenwi cynlluniau cyfathrebu â phwyslais arbennig ar waith WWF ym maes ffermio morol atgynhyrchiol a Phrosiect Tirwedd Gyfan Sir Benfro
- Cydweithio'n agos â thîm cyfathrebu Cymru, tîm y prosiect Gwymon, a Rheolwr Prosiect Tirwedd Gyfan Sir Benfro yn cynllunio a datblygu cynnwys, gan greu a chomisiynu cynnwys ac asedau ar gyfer sianelau cymdeithasol, e-gyfathrebu, tudalennau gwe a chyfathrebu corfforol fel bo angen
- Ysgrifennu naratifau cyhoeddus cryf, datganiadau i'r wasg, datganiadau adweithiol a dogfennau briffio i'r cyfryngau, datblygu astudiaethau achos a chyfleoedd i ffilmio/ tynnu llunio, gan weithredu fel llefarydd darlledu ar gyfer eich meysydd prosiect ar adegau
- Sicrhau y caiff data a gwybodaeth wyddonol eu cyflwyno mewn ffordd sy'n ystyrlon o'r cyhoedd ac yn hygyrch iddo
- Rheoli perthnasoedd â chontractwyr ar gyfer gwaith a gomisiynwyd
- Sefydlu perthynas gweithio da â thimau cyfathrebu WWF UK a chysylltu â hwy yn rheolaidd er mwyn gweithio mewn ffordd integredig
- Rhoi cyngor ac arweiniad yn fewnol ar gyd-destun a diwylliant Cymru, a'r Gymraeg, mewn perthynas â gwymon a Sir Benfro
- Meithrin perthnasoedd gweithio cynhyrchiol gyda rhanddeiliaid mewnol sy'n berthnasol i feysydd gwaith eich prosiect yn WWF Cymru, WWF-UK ac ar draws rhwydwaith ehangach WWF

- Datblygu perthynas â rhanddeiliaid allweddol a chefnogwyr yng Nghymru, a chreu ymgyrchoedd cynnwys a chyfathrebu a fydd yn ymgysylltu â hwy ac yn eu hysbrydoli i weithredu

## MANYLEB PERSON

### PROFIAD, CYMWYSTERAU A GWYBODAETH

- Profiad perthnasol o gyfathrebu amlsianel
- Hanes da o ddatblygu a chyflenwi cynlluniau cyfathrebu wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd amrywiol
- Gwybodaeth o dirwedd y cyfryngau yng Nghymru a dealltwriaeth am y ffordd mae meddyliau newyddiadurwyr yn gweithio.
- Profiad o gynllunio cynnwys ar gyfer sianelau'r cyfryngau cymdeithasol a deall sut i ddefnyddio offer digidol a chymdeithasol i ymgysylltu ac ysgogi cynulleidfaoedd allweddol, ac i ddylanwadu arnynt
- Profiad o greu neu gomisiynu cynnwys sy'n ysbrydoli i'r we a'r cyfryngau cymdeithasol, a'r gallu i ddysgu sgiliau digidol newydd yn gyflym
- Profiad o reoli prosiectau a chomisiynu cynnwys
- Gwybodaeth dda o Gymru – ei hieithoedd, sefydliadau, strwythurau gwleidyddol, diwylliant, cyfryngau, rhanddeiliaid ac amgylchedd, a phrofiad o weithio ym maes cyfathrebu'r trydydd sector yng Nghymru
- Yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Profiad sylweddol o weithio mewn amgylchedd dwyieithog yng Nghymru
- Profiad o ddatblygu perthnasoedd gweithio effeithiol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid mewnol ac allanol

### SGILIAU A CHYMWYSEDDAU

- Yn hynod drefnus a hyblyg
- Yn gweithredu o'i ben a'i bastwn ei hun i ysgogi'r gwaith o gyflawni prosiectau gydag amrywiaeth o gydweithwyr a rhanddeiliaid
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar ardderchog yn Gymraeg a Saesneg a'r gallu i addasu negeseuon cymhleth er mwyn ysbrydoli amrywiaeth o gynulleidfaoedd
- Bydd gennych lygad am stori a byddwch yn gallu achub ar gyfleoedd inni gyfleu ein negeseuon
- Yn gallu ysbrydoli rhanddeiliaid a'r cyhoedd, gan gymryd materion cymhleth a chreu cynnwys sy'n cael effaith
- Y gallu i weithredu'n ddi-oed i gyflawni prosiectau yn unol ag amserlenni tynn
- Yr ysgogiad a phenderfyniad i wneud i bethau ddigwydd yn gyflym, gan ddwyn perswâd ar gydweithwyr, cefnogwyr a rhanddeiliaid

### GWERTHOEDD WWF-UK

Gwerthoedd WWF-UK yw: 'Dewrder', 'Uniondeb', 'Parch' a 'Chydweithredu'. Dylai'r gwerthoedd hyn gael eu gwreiddio yn eich gwaith a'ch ymddygiad, a dylai unrhyw bolisïau a phrosesau cysylltiedig gael eu mabwysiadu mewn modd cyson.

*Mae WWF UK wedi ymrwymo i gynnal proses recriwtio gynhwysol a hygyrch. Fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, rydym yn cydnabod efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai ymgeiswyr i oresgyn rhwystrau a brofwyd yn ystod y broses ymgeisio. Os oes arnoch angen unrhyw addasiadau rhesymol i gefnogi'ch cais neu gyfweliad, cysylltwch â'r tîm Caffael Talent drwy anfon neges e-bost at recruitment@wwf.org.uk.*

***Mae'r ddogfen hon yn nodi cyfrifoldebau allweddol y rôl ac nid yw wedi'i bwriadu i fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a dyletswyddau. Rydym yn cadw'r hawl, yn ôl ein disgresiwn llwyr, i amrywio'r cyfrifoldebau yn rhesymol o bryd i'w gilydd, gan ddibynnu ar anghenion y sefydliad, heb newid lefel y rôl.***